



## Uned 1F: Deall cyfarwyddiadau a gwneud i bethau ddigwydd

### Ynglŷn â'r uned:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i roi a dilyn cyfarwyddiadau i wneud i bethau ddigwydd. Maen nhw'n dysgu sut i roi cyfarwyddiadau mewn dilyniant, fel bod pobl eraill yn gallu eu dilyn, a rhagfynegi beth fydd yn digwydd.

Bydd plant yn dysgu bod peiriannau'n dilyn cyfarwyddiadau a bod yn rhaid eu troi ymlaen a'u diffodd, a'u rheoli. Byddan nhw'n sylweddoli'r angen am gywirdeb, diffiniad a iaith gyffredin.

Bydd plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig ac ar lafar fel ei gilydd. Bydd yr uned yn eu helpu i ddeall sut mae offer pob dydd yn gweithio hefyd.

### Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn ymwybodol o switshis syml mewn offer cartref
- yn deall y termau troi ymlaen / diffodd
- yn deall iaith gyfeiriadol fel ymlaen, i'r chwith, yn ôl, troi yn gallu cyfrif.

### Geirfa:

Trefn | Cyfarwyddyd | Dilyniant | ol-fysell | Troi

### Adnoddau:

recordydd tâp | teganau sy'n gweithio ar fatri | tegan a reolir o bell | cardiau yn dangos pob cam mewn rysâit

### Disgwyliadau: Erbyn diwedd yr uned hon,

*Bydd y mwyafrif o blant yn gallu:* darllen set o gyfarwyddiadau ac yn rhagfynegi'r canlyniad cywir fel arfer; cynhyrchu set o gyfarwyddiadau cywir i bobl eraill eu dilyn

*Bydd rhai plant dim ond yn gallu:* darllen set o gyfarwyddiadau ac yn rhagfynegi'r canlyniad cywir weithiau; cynhyrchu cyfarwyddiadau ond eu rhoi nhw mewn dilyniant anghywir neu'n rhagdybio

*Hefyd bydd rhai plant yn gallu:* darllen set o gyfarwyddiadau gan ragfynegi'r canlyniad cywir; cynhyrchu set o gyfarwyddiadau cywir gan ddefnyddio mesuriadau safonedig a'r iaith gytunedig.

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*



AMCANION DYSGU <i>Dylai disgyblion ddysgu</i>	GWEITHGAREDDAU POSIB	CANLYNIADAU DYSGU <i>Gall disgyblion</i>	PWYNTIAU I'W NODI
<b>Gosod yr olygfa</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod yn rhaid rheoli peiriannau a dyfeisiau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Trafodwch gyda'r dosbarth y dechnoleg maen nhw'n ei gweld neu'n ei defnyddio ee <i>teledu, recordwyr fideo, ffyrnau meicrodon, peiriannau golchi, teganau, goleuadau traffig, tiliau mewn archfarchnadoedd</i>. Esboniwch sut mae'r offer hwn yn cael ei reoli, <i>ee pwysu botymau troi ymlaen/diffodd, troi deialau, rheoli o bell</i>.</li><li>• Dangoswch rai teganau sy'n gweithio ar fatri i'r dosbarth. Gofynnwch i'r plant dynnu lluniau o'r teganau a labelu lle gosod y batris a'r switsh . Torrwrch luniau o offer tebyg o gylchgronau i wneud arddangosiad a gofynnwch i'r plant eu grwpio mewn categorïau, <i>ee ble byddent yn eu gweld neu sut maen nhw'n cael eu rheoli</i>.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• sylweddoli bod yn rhaid rheoli peiriannau a dyfeisiau</li></ul>	
<b>Tasgau byr wedi'u ffocysu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod peiriannau a dyfeisiau'n gallu cael eu rheoli gan ddilyniant o weithrediadau corfforol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddiwch recordydd tâp gyda'r plant i recordio seiniau. Dangoswch i'r plant sut mae yn cael eu defnyddio yn y dilyniant iawn i recordio a chwarae sain yn ôl. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach, rhowch ddiagram syml o recordydd tâp iddynt a gofynnwch iddynt recordio rhai seiniau. Gofynnwch iddynt labelu'r botymau ar y diagram a nodi'r drefn y maent yn cael eu gwthio.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Recognise that some machines and devices work by using a sequence of physical actions.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gellir cysylltu'r gweithgaredd hwn â'r un blaenorol drwy drafod trefn rhaglennu recordydd fideo neu drefn gwneud y golch.</li><li>• Gellir rhoi diagram wedi'i labelu i blant sy'n cael y gweithgaredd hwn yn anodd a gofyn iddynt gynhyrchu'r dilyniant cywir yn unig.</li></ul>

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*



AMCANION DYSGU <i>Dylai disgyblion ddysgu</i>	GWEITHGAREDDAU POSIB	CANLYNIADAU DYSGU <i>Gall disgyblion</i>	PWYNTIAU I'W NODI
<b>Tasgau byr wedi'u ffocysu</b>			
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod dilyniant yn effeithio ar y canlyniad</li><li>• <b>techneg:</b> rhoi gweithgareddau yn y drefn gywir</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Rhwch set o gardiau i'r plant sy'n dangos lluniau o gamau rysâit gwneud losin. Gofynnwch i'r plant nodi'r dilyniant cywir drwy roi'r cardiau yn eu trefn. Siaradwch am beth allai ddigwydd os na ddilynrir y drefn gywir. Gofynnwch iddynt feddwl am achosion eraill lle mae'n bwysig cyflawni cyfarwyddiadau yn y drefn gywir, <i>ee gyrru car, adeiladu model</i>. Trafodwch achosion lle nad yw'r drefn yn bwysig, <i>ee rhoi haenau ar pizza</i>.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• rhoi cyfarwyddiadau yn y drefn gywir er mwyn cael y canlyniadau cywir.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Gall y plant ddefnyddio'r rysâit i wneud y losin gartref.</li><li>• Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnig cyfle i ofyn cwestiynau 'beth ... os', <i>ee beth sy'n digwydd os gadewir y siocled neu'r menynd am ddeng munud ar ôl iddo doddi?</i> Mae'n bwysig bod plant yn trafod effaith dilyniant anghywir.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod modd rhoi cyfarwyddiadau gan ddefnyddio iaith gyffredin</li><li>• <b>techneg:</b> defnyddio iaith gyfeiriadol i 'reoli' gweithrediadau rhywun arall</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn ystod gwrs Add. Gorff. rhwch gyfarwyddiadau i'r plant gan ddefnyddio iaith gyfeiriadol syml, fel ymlaen, yn ôl, i'r chwith, i'r dde. Dechreuwch gyda chyfarwyddiadau unigol y mae plant yn ymateb iddynt yn syth ac yna symudwch i ddilyniannau byr y mae plant yn ymateb iddynt ar ôl clywed y set gyfan o gyfarwyddiadau. Ni fydd angen iddynt ddefnyddio unedau fel camau, neu raddau'r troi ar y dechrau.</li><li>• Trafodwch beth sy'n digwydd pan fydd y plant yn cychwyn o safleoedd gwahanol, gan wynebu cyfeiriad gwahanol. dangoswch fod eu ffordd o ymateb i'r cyfarwyddiadau'n dibynnu ar sut maen nhw wedi'u lleoli. Rhannwch y</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• rhoi cyfarwyddiadau mewn iaith gyffredin</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Hyd yn hyn nid yw unedau mesuradwy yn bwysig ond dylech chi drafod 'pa mor bell' a 'sawl'.</li><li>• Bydd rhai plant yn cael cysyniad geometreg gymharol (h.y. bod ymlaen yn golygu pethau gwahanol gan ddibynnu ar ba gyfeiriad rydych yn ei</li></ul>

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*



<b>AMCANION DYSGU</b> <i>Dylai disgyblion ddysgu</i>	<b>GWEITHGAREDDAU POSIB</b>	<b>CANLYNIADAU DYSGU</b> <i>Gall disgyblion</i>	<b>PWYNTIAU I'W NODI</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod modd rhoi cyfarwyddiadau gan ddefnyddio iaith gyffredin</li><li>• <b>techneg:</b> defnyddio iaith gyfeiriadol i 'reoli' gweithrediadau rhywun arall</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Yn ystod gwrs Add. Gorff. rhwng gyfarwyddiadau i'r plant gan ddefnyddio iaith gyfeiriadol syml, fel ymlaen, yn ôl, i'r chwith, i'r dde. Dechreuwch gyda chyfarwyddiadau unigol y mae plant yn ymateb iddynt yn syth ac yna symudwch i ddilyniannau byr y mae plant yn ymateb iddynt ar ôl clywed y set gyfan o gyfarwyddiadau. Ni fydd angen iddynt ddefnyddio unedau fel camau, neu raddau'r troi ar y dechrau.</li><li>• Trafodwch beth sy'n digwydd pan fydd y plant yn cychwyn o safleoedd gwahanol, gan wynebu cyfeiriad gwahanol. dangoswch fod eu ffordd o ymateb i'r cyfarwyddiadau'n dibynnu ar sut maen nhw wedi'u lleoli. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddynt roi cyfarwyddiadau i'w gilydd. Mae'r rhain yn gallu cynnwys symud o gwmpas rhwystrau neu gyrraedd lle penodol. Rhwng gyfle iddynt ddefnyddio iaith gymharol, fel 'ychydig ymhellach'. Trafodwch hyd y cam a gradd y troi yn y cyfnod hwn.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• rhoi cyfarwyddiadau mewn iaith gyffredin</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Hyd yn hyn nid yw unedau mesuradwy yn bwysig ond dylech chi drafod 'pa mor bell' a 'sawl'.</li><li>• Bydd rhai plant yn cael cysyniad geometreg gymharol (h.y. bod ymlaen yn golygu pethau gwahanol gan ddibynnu ar ba gyfeiriad rydych yn ei wynebu) yn anodd a bydd angen ymarfer sawl gwaith.</li></ul>



<b>AMCANION DYSGU</b> <i>Dylai disgyblion ddysgu</i>	<b>GWEITHGAREDDAU POSIB</b>	<b>CANLYNIADAU DYSGU</b> <i>Gall disgyblion</i>	<b>PWYNTIAU I'W NODI</b>
<p><b>Tasgau byr wedi'u ffocysu</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod cyfarwyddiadau'n gallu cynnwys unedau y mae modd eu mesur mewn iaith gyffredin</li><li>• <b>techneg:</b> defnyddio hyd uned ac iaith gyffredin <i>ee ail-adrodd a stopio</i></li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Ailadroddwch y gweithgaredd blaenorol gyda mwy o bwyslais ar unedau o werth rhifyddol sy'n cyfleu pellter neu droad <i>ee dau gam ymlaen</i>. Cyflwynwch y syniad o ail-adrodd, <i>ee 'gwnewch hynny ddwywaith'</i>. Siaradwch â'r plant ynghylch sut mae pobl yn dehongli 'dau gam ymlaen' mewn ffyrdd gwahanol gan ddibynnu ar faint eu cam, a thrafodwch sut mae modd mesur troadau. Yna, trafodwch bwysigrwydd safoni maint yr uned a'r iaith y rhoddir cyfarwyddiadau ynndi gyda'r dosbarth</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• sylweddoli pwysigrwydd defnyddio cyfarwyddiadau a mesuriadau unffurf</li><li>• sylweddoli pwysigrwydd manwl gywirdeb mewn cyfarwyddiadau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Cymharwch hyd eich cam â hyd camau'r plant i ddangos bod yr un set o gyfarwyddiadau'n gallu achosi canlyniad gwahanol</li><li>• Gellir dweud wrth y dosbarth i hydoedd y corff gael eu defnyddio'n draddodiadol er nad oedd y rhain yn safonol nac yn deg. Gall hynny arwain at drafodaeth o'r angen am unedau safonol.</li></ul>
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod modd cofnodi cyfarwyddiadau i'w hail-adrodd a'u newid</li><li>• <b>techneg:</b> cofnodi dilyniant o gyfarwyddiadau mewn fformat cyffredin</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Esboniwch sut i lunio set o gyfarwyddiadau i symud rhywun o un man i fan arall. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu eu cyfarwyddiadau eu hunain. I ddechrau, gadewch i blant ddewis eu dull eu hunain o gofnodi, yn seiliedig ar yr iaith a'r unedau a ddefnyddiwyd yn y wers flaenorol. Gofynnwch i'r plant ddod o hyd i bartner i gyflawni'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig ac adrodd yn ôl am y canlyniad. Trafodwch ffyrdd o safoni hydoedd yr unedau a'r dulliau cofnodi <i>ee defnyddio cardiau gyda symbolau fel 'Y' neu saeth goch, i ddynodi ymlaen</i>. Gofynnwch i'r plant ailysgrifennu eu cyfarwyddiadau, gan gynnwys unrhyw newidiadau, gan ddefnyddio'r dull newydd o gofnodi a gytunwyd.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• ysgrifennu dilyniant o gyfarwyddiadau i bobl eraill eu cwblhau</li><li>• ysgrifennu cyfarwyddiadau mewn fformat y cytunwyd arno gan ddefnyddio hydoedd safonol ar gyfer yr unedau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'n bosib y bydd y plant yn camddechongli cyfarwyddiadau a mesur unedau'n anghywir yn y cyfnod hwn.</li></ul>



<b>AMCANION DYSGU</b> <i>Dylai disgyblion ddysgu</i>	<b>GWEITHGAREDDAU POSIB</b>	<b>CANLYNIADAU DYSGU</b> <i>Gall disgyblion</i>	<b>PWYNTIAU I'W NODI</b>
<b>Tasgau byr wedi'u ffocysu</b>			
<ul style="list-style-type: none"><li>• <b>syniad allweddol:</b> bod modd rhagfynegi canlyniadau a bod modd rhoi'r rhagfynegiadau ar brawf</li><li>• <b>techneg:</b> darllen set o gyfarwyddiadau, rhagfynegi'r canlyniad a dilyn y cyfarwyddiadau i roi eu rhagfynegiad ar brawf</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Defnyddiwch y dulliau o'r wers flaenorol i baratoi tair neu bedair set o gyfarwyddiadau ar gyfer symud o gwmpas y dosbarth, gan ddechrau mewn manau penodol ac wynebu cyfeiriadau penodol. Rhwch y cyfarwyddiadau i'r plant a gofynnwch iddynt ragfynegi lle bydd y cyfarwyddiadau yn mynd â nhw. Rhwch gyfle i'r plant ddilyn y cyfarwyddiadau i gadarnhau neu wrthddweud eu rhagfynegiadau.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• rhagfynegi canlyniad set o gyfarwyddiadau a rhoi'r canlyniadau ar brawf</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Mae'n bosibl na fydd y plant yn rhoi eu rhagfynegiad ar brawf ond yn cymryd yn ganiataol eu bod nhw wedi dyfalu'n gywir</li><li>• Gellir cynhyrchu dwy set o gyfarwyddiadau, sy'n dechrau mewn manau gwahanol ond yn dod i ben yn yr un lle, neu'n dechrau yn yr un lle ond yn wynebu cyfeiriadau gwahanol. Bydd hynny'n atgoffa'r plant am bwysigrwydd y man cychwyn.</li></ul>

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*



<b>AMCANION DYSGU</b> <i>Dylai disgyblion ddysgu</i>	<b>GWEITHGAREDDAU POSIB</b>	<b>CANLYNIADAU DYSGU</b> <i>Gall disgyblion</i>	<b>PWYNTIAU I'W NODI</b>
<b>Tasg Asesu</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• mai cofnodi dilyniant o gyfarwyddiadau yw sylfaen gwaith ar reoli</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Dewiswch dri man yn y dosbarth, <i>ee desg yr athro/athrawes, y man darllen a'r man cotiau.</i> Gofynnwch i'r plant ysgrifennu set o gyfarwyddiadau i gyrraedd pob un o'r manau hyn o'u cadeiriau eu hunain. Dywedwch wrth y dosbarth y dylid ysgrifennu'r cyfarwyddiadau yn y fformat y cytunwyd <u>arno</u> a bod yn rhaid iddynt eu gwirio am gywirdeb. Gofynnwch i'r plant ysgrifennu yn eu cyfarwyddiadau i ble byddan nhw'n arwain, ac yna gosod eu cyfarwyddiadau mewn boc. Gofynnwch i bob plentyn ddewis set o gyfarwyddiadau. Gofynnwch iddynt weithio allan oddi wrth bwy y daeth y cyfarwyddiadau trwy weithio'n ôl o'r man a ddewiswyd. Gadewch iddynt roi eu rhagfynegiadau ar brawf.</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• ysgrifennu setiau o gyfarwyddiadau a'u dehongli'n gywir, a gwneud a rhoi eu rhagfynegiadau ar brawf</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Bydd yn rhaid i'r plant wybod eu bod nhw'n dilyn y cyfarwyddiadau am yn ôl a bydd yn rhaid iddyn nhw wybod y byddan nhw'n cael y canlyniad cywir drwy brofi a methu ac nid drwy ddyfalu.</li><li>• Gellir galw'r gêm 'pwy ydw i?'</li></ul>

*These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website*